**Beirniadaeth Cystadleuaeth 386**

**Cystadleuaeth Ysgrifennu Traethawd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru**

**Beirniaid: Angharad Davies ac Emma Hughes-Parry**

**1af Nanw MacIntyre Huws**

Pympiau inswlin, dyfeisiadau monitro glwcos a'u heffaith ar iechyd meddwl cleifion efo diabetes oedd testun y traethawd yma. Tynnodd yr awdur ar brofiad personol aelod o'i theulu efo dyfeisiadau o'r fath, a rhoi persbectif gwahanol a diddorol, gan ystyried eu hanfanteision yn ogystal a'u manteision.Hoffem yr olwg wahanol yma oedd yn helpu rhywun i ddeall profiad y claf yn well.

**2. Branwen Rhys**

Y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial mewn triniaethau ffrwythlondeb oedd dan sylw yma. Roedd yn cynnwys gwybodaeth ddiweddar iawn ac hefyd yn trafod gwahanol farn ar foesoldeb defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddethol embryonau. Nododd yr awdur broblem y 'blwch du', lle nad ydy defnyddwyr bob amser yn gallu gwybod sut mae deallusrwydd artiffisial wedi gwneud penderfyniad. Pwnc diddorol a chafwyd rhestr cynhwysfawr o ffynhonellau.

**3. Menna Hipsley Jones**

Dyma draethawd arall am ddeallusrwydd artiffisial, y tro yma er mwyn canfod canser yr ysgyfaint mewn sganiau a delweddau pelydr X y frest. Cafwyd gwybodaeth fanwl iawn ac eang, ac ymdriniaeth dda o'r manteision a'r anfanteision.